# Taflen Ganllawiau: Tystiolaeth o Angen am Dai Fforddiadwy (Tai ar Werth ar Ostyngiad) (gan gynnwys codi eich tŷ eich hun) a Meini Prawf Cymhwyso

Sylwer: cewch fwy o fanylion yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy a'r Taflenni Cymorth sydd ar gael ar-lein: https://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=21419

Dylai Ymgeiswyr Cais Cynllunio;

- Gofrestru fod angen tŷ fforddiadwy arnynt ar https://www.ceredigionhousingoptions.cymru/ cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Caiff hynny ei wirio a'i ddilysu gyda'r cais cynllunio.
- Rhowch dystiolaeth (ar gyfer cymaint o'r canlynol ag phosib) i ddangos pam:
    - Dyw'r tai fforddiadwy presennol ddim yn addas i ddiwallu eu hanghenion.
    - Dyw eu llety presennol ddim yn addas i ddiwallu eu hanghenion.
    - Dyw’r unrhyw cartrefi neu’r plotiau sydd ar werth yn lleol (dyw hynny ddim yn golygu’r pentref/y dref ei hun yn unig, mae angen ystyried aneddiadau eraill yng nghyffiniau’r lleoliad o’u dewis yn ogystal) ddim yn fforddiadwy iddyn nhw (bydd unrhyw wybodaeth ariannol a roddir yn aros yn gwbl gyfrinachol e.e. tystiolaeth o'r morgais uchafswm sydd ar gael i'r ymgeisydd). Dylid cynnwys tystiolaeth o brisiau tai neu eiddo/plotiau sydd ar werth yn yr ardal ar hyn o bryd.
    - Does dim cynlluniau tai addas yn yr arfaeth a allai wneud y tro iddynt (mae'r wybodaeth yma ar gael gan y Swyddog Tai Fforddiadwy.

## Cymwysterau ar gyfer Meddiannu Tŷ sydd Ar Werth ar Ostyngiad a Meini prawf Cymhwyso

**Yr Amodau Preswylio:**
(os yw'r cais yn gais ar y cyd dim ond un partner fydd yn gorfod bodloni'r meini prawf preswyliaeth)

- Ar ryw adeg yn ystod eich bywyd dylech fod wedi byw yng Ngheredigion neu ardal cyngor tref/cymuned gyfagos (neu gyfuniad o'r ddau) am gyfnod di-dor o bum mlynedd.

NEU

- Mae angen i chi fyw yng Ngheredigion er mwyn rhoi gofal sylweddol i berthynas agos neu gael gofal sylweddol gan berthynas agos lle mae'r perthynas yn bodloni'r gofynion preswylio uchod ac na all eiddo'r perthynas (boed hynny fel y mae ar hyn o bryd neu ar ôl cael ei ymestyn) ddiwallu anghenion yr aelwyd gyfun.

NEU

- Mae angen i chi fod yng Ngheredigion at ddibenion cyflogaeth fel gweithiwr allweddol mewn swydd llawn amser (35 awr neu gyfnod cyfatebol) barhaol.
  Diffinnir gweithiwr allweddol fel a ganlyn:
    - Athro mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu goleg chweched dosbarth;
    - Nyrs neu weithiwr iechyd medrus arall yn y Gwasanaeth Iechyd Gwlado;l
    - Un o swyddogion yr heddlu;
    - Unigolyn sy'n gweithio i'r gwasanaeth prawf;
    - Gweithiwr cymdeithasol;
    - Seicolegydd addysgol;
    - Therapydd galwedigaethol;
    - Swyddog tân;

Unrhyw un arall y mae ei gyflogaeth yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau allweddol yng Ngheredigion pan fu'n anodd recriwtio o'r tu fewn i'r Sir.

**Amodau Ariannol**
(os yw'r cais yn gais ar y cyd rhaid i bob partner fodloni'r meini prawf ariannol)
Mae angen bod yr ymgeisydd (ac unrhyw un sy'n dymuno ymddangos ar y gweithredoedd) yn methu â chael morgais (ar y cyd os yw hynny’n berthnasol) am 10% yn fwy na gwerth gostyngol yr eiddo (gallwch brisio’r eiddo cyn ei godi, unwaith y cewch chi’r caniatâd cynllunio) e.e. os mai £100,000 yw gwerth yr eiddo ar y pris gostyngol rhaid bod yr ymgeisydd yn methu â chael morgais am £110,000. Dyw hynny ddim yn golygu bod rhaid i'r ymgeisydd/ymgeiswyr ariannu'r pryniant drwy forgais. Bydd angen bod yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn fodlon bod modd ganddynt i brynu'r eiddo.

**Meddiannu Eiddo fel Unig Breswylfa**
(os yw'r cais yn gais ar y cyd bydd angen bod pob partner yn gymwys o dan y meini prawf sy'n ymwneud ag unig breswylfa)
Byw yn yr eiddo fel ei unig gartref, a bydd angen cadarnhau nad yw’n berchen ar eiddo preswyl arall ar adeg ei brynu/yr adeiladu cychwynnol a’i feddiannu. Bydd angen i'r ymgeisydd/ymgeiswyr lofnodi Datganiad Statudol i'r perwyl hwnnw a chyfreithiwr neu gomisiynydd llwon yn dyst. Bydd angen Datganiad Statudol i'r perwyl hwn wedi hynny’n flynyddol.